
# Yn Cyflwyno Dechrau Da







Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pwy ydym ni

Mae **BookTrust** yn gweddnewid bywydau drwy gael plant a theuluoedd i ddarllen.

Bob blwyddyn rydym yn cyrraedd miliynau o blant ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon drwy ddarparu llyfrau, adnoddau a chefnogaeth – a gallwch chi helpu.

Mae ein gwaith yn cefnogi pob teulu yng Nghymru o flwyddyn gyntaf bywyd eu plentyn hyd at ddiwedd eu blwyddyn Derbyn yn yr ysgol, gan ddechrau â Dechrau Da Babi.

Mae Dechrau Da annog teuluoedd i rannu a mwynhau llyfrau, straeon a rhigymau o fisoedd cyntaf bywyd a thrwy gydol y blynyddoedd cynnar.
Caiff pecynnau Dechrau Da Babi eu rhoi'n anrheg pan fydd y plentyn tua 6 mis oed ac mae pecynnau Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar yn cael eu rhoi pan fyddan nhw tua 27 mis.

Mae gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru Gydlynydd Dechrau Da sy'n gweithio gydag Ymwelwyr Iechyd i ddosbarthu pecynnau i deuluoedd ledled Cymru.



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Beth yw Dechrau Da?

Mae Dechrau Da ar gael i bob plentyn yng Nghymru.

Mae Dechrau Da yn annog teuluoedd i rannu a mwynhau llyfrau, straeon a rhigymau o'r fisoedd cyntaf bywyd y plentyn a thrwy gydol y blynyddoedd cynnar.

Caiff pecynnau Dechrau Da Babi eu rhoi i blant pan fyddan nhw'n 6 mis oed, a'r bwriad yw rhoi pecynnau Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar yn 27 mis oed. Maen nhw wedi'u cynnwys fel rhan o bwyntiau cyswllt sydd wedi'u trefnu dan Raglen Plant Iach Cymru.

Mae gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru Gydlynydd Dechrau Da yn eu Gwasanaethau Llyfrgell sy'n gweithio gydag Ymwelwyr Iechyd i ddosbarthu pecynnau i deuluoedd ledled Cymru.

Nod rhaglen Dechrau Da yng Nghymru yw galluogi pob mam, dad a gofalwr i ysbrydoli babanod a phlant ifanc, rhwng 0 a 3 oed, i garu llyfrau, rhigymau a straeon.

Mae Ymwelwyr Iechyd yn y sefyllfa ddelfrydol i helpu i gyrraedd teuluoedd nad ydyn nhw fel arall, o bosibl, yn debygol o dderbyn negeseuon ynglŷn â manteision darllen gyda'i gilydd.




BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Y rhaglen Dechra Da yng Nghymru

**Y rhaglen Dechrau Da Cymru** galluogi pob mam, dad a gofalwr i ysbrydoli cariad at lyfrau, hwiangerddi a straeon mewn babanod a phlant bach, rhwng 0-3 oed

Dyma ddeilliannau'r rhaglen:

- Cynyddu dealltwriaeth rhieni a gofalwyr o bwysigrwydd rhannu llyfrau, straeon a rhigymau
- Gwneud rhannu llyfrau, rhigymau a straeon yn hwyl i deuluoedd
- Gwella hyder rhieni a gofalwyr wrth rannu llyfrau â'u babi / plentyn ifanc
- Ehangu gwybodaeth rhieni a gofalwyr am ffyrdd i gael gafael ar lyfrau, straeon a rhigymau a'u rhannu â'u babi
- Cefnogi rhieni a gofalwyr i ddatblygu'r arfer o ddarllen gyda'u plant o'r crud
- Galluogi partneriaid i gyfleu negeseuon o ansawdd uchel i rieni a gofalwyr ynglŷn â rhannu darllen
- Cynyddu hyder a pharodrwydd rhieni a gofalwyr i rannu llyfrau, straeon a rhigymau Cymraeg a Saesneg â'u babi/plentyn ifanc



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Y rhaglen Dechra Da yng Nghymru

**Mae Dechrau Da yn fwy na phecyn ffisegol** - mae'n rhaglen sy'n annog datblygiad cymdeithasol, iaith gynnar, a sgiliau cyn-llythrennedd a chyfathrebu trwy fwynhau llyfrau, straeon a rhigymau.

Gyda help Ymwelwyr Iechyd, mae tua 95% o blant yng Nghymru'n derbyn eu pecynnau Dechrau Da Babi a Blynyddoedd Cynnar.

Rydyn ni eisiau i Ymwelwyr Iechyd ddefnyddio'r hyfforddiant a'r adnoddau hyn i sicrhau bod negeseuon Dechrau Da yn cael eu cyfleu i rieni a gofalwyr pan maen nhw'n derbyn eu pecynnau. Fe fydd yr anogaeth hon gan weithiwr proffesiynol y maen nhw'n ei barchu yn helpu i gynyddu gallu teuluoedd i gefnogi datblygiad cynnar eu plentyn trwy ddefnyddio llyfrau, straeon a rhigymau.

Mae pob pecyn Dechrau Da yng Nghymru'n cynnwys llyfrau Saesneg a llyfrau dwyieithog. Gallwch chi gael gwybod sut i gyflwyno'r Gymraeg o'r crud fan yma: https://www.gov.wales/cymraeg-for-kids



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Manteision rhannu darllen yn gynnar

**Datblygiad cymdeithasol-emosiynol**

- Mae rhannu darllen yn gynnar yn cefnogi datblygiad plentyn trwy ddarparu cyfleoedd i feithrin perthynas agos. Mae babanod yn hoff iawn o gael eu dal yn agos a chlywed llais rhiant neu ofalwr
- Mae bod â threfn bob dydd a rhythm i'r diwrnod yn gallu helpu plant i fagu hyder ac annibyniaeth
- Os yw rhiant yn edrych fel pe bai'n ei chael hi'n anodd cael trefn bob dydd, mae'r pecyn Dechrau Da yn cynnig cyfle i ddechrau sgwrs am gyflwyno digwyddiadau rheolaidd i ddiwrnod eu babi
- Mae sefydlu trefn ddarllen yn helpu plentyn ifanc i ddeall ei ddiwrnod a gwybod beth i'w ddisgwyl o'i amgylchedd, ac mae'n gallu helpu i wneud i blentyn deimlo'n fwy hyderus a diogel. Mae hyn yn gallu cefnogi hunan-barch a llesiant
- Mae rhannu llyfr neu stori yn y nos yn ffordd ddelfrydol o setlo plentyn
- Mae rhannu darllen yn gallu cynyddu'r amser o ansawdd y mae plentyn a rhieni/gofalwyr yn ei dreulio gyda'i gilydd
- Mae straeon a siarad am lyfrau'n gallu helpu i ddatblygu empathi ac mae'n annog plant i gydnabod eu teimladau a theimladau pobl eraill, a siarad amdanyn nhw




BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Manteision rhannu darllen yn gynnar

**Datblygiad Gwybyddol**

- Mae eistedd yn dawel gyda'ch gilydd yn cefnogi gwrando, canolbwyntio a rhoi sylw
- Fe fydd babanod a phlant yn dechrau rhagweld eu hoff ddarluniad/cymeriad/rhan o'r stori ac fe fyddan nhw'n defnyddio'u cof i gofio beth sy'n digwydd nesaf
- Mae siarad am lyfr, ac edrych ar luniau, cymeriadau a rhediad stori'n gallu cefnogi dychymyg a meddwl plentyn bach
- Mae cael straeon yn helpu i gyfoethogi'r dychymyg ac mae'n rhoi gwybodaeth am amrywiaeth o brofiadau y mae plant yn gallu tynnu arnyn nhw i roi hyder iddyn nhw
- Mae straeon yn gallu rhoi fframwaith i blant y gallan nhw ddehongli ymddygiadau oddi mewn iddo a rhoi ystyr iddyn nhw
- Mae darparu amgylchedd dysgu cyfeillgar yn y cartref yn helpu plant i roi'r byd o'u hamgylch ar brawf a dysgu amdano, ac i ddatblygu a chynnal sgiliau iaith, llythrennedd a rhifedd cryf



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Manteision rhannu darllen yn gynnar

**Datblygiad Ieithyddol**

- Mae annog rhieni a gofalwyr i rannu llyfrau, straeon a rhigymau'n gallu gwella sgiliau iaith a chyfathrebu plentyn
- Mae defnyddio lleisiau doniol a synau anifeiliaid yn dod â stori yn fyw ac mae'n helpu plant i ddod i adnabod geiriau o'u sŵn o oedran cynnar
- Mae clywed stori'n cael ei darllen yn uchel, dysgu caneuon a hwiangerddi'n gallu annog plant i gael geirfa dda
- Mae rhannu darllen yn gallu annog yr arfer o gymryd tro a datblygu sgiliau gwrando

**Datblygiad Corfforol**

- Mae rhannu llyfrau o'r crud yn cefnogi datblygiad cydsymudiad corfforol trwy droi tudalennau, codi fflapiau a phwyntio bys at ddelweddau
- Mae babanod yn hoffi archwilio llyfrau'n gorfforol gan ddefnyddio a datblygu eu sgiliau synhwyraidd-symudol trwy sugno, patio, anwesu neu grafu llyfrau. Mae sgiliau trin a thrafod yn datblygu'n gyflym trwy flwyddyn gyntaf babi



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Manteision hirdymor darllen

Mae darllen yn cynnig manteision dwys ac eang a all gael effaith gadarnhaol ar blant gydol eu hoes.

**Mae plant sy'n darllen:**

Yn fwy tebygol o oresgyn anfantais sy'n cael ei hachosi gan anghydraddoldeb

Yn fwy tebygol o fod yn hapus ac iach a phrofi gwell lles meddyliol a hunan-barch

Yn fwy tebygol o wneud yn well yn yr ysgol a gwneud mwy o gynnydd ar draws y cwricwlwm

Yn fwy tebygol o ddatblygu empathi a chreadigrwydd



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Dechrau Da Babi - Rhoi

**Pecyn Dechrau Da Babi**

Nid yw byth yn rhy gynnar i ddechrau rhannu llyfrau, straeon a rhigymau gyda'ch plentyn.




BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Babi

**Caiff ei argymell bod pecyn Dechrau Da Babi yn cael ei roi'n anrheg i blentyn pan fydd tua 6 mis oed**

- Mae'n bwysig agor y pecyn a thynnu'r cynnwys allan gyda'r rhiant neu'r gofalwr
- Mae'n ddelfrydol dangos y llyfr i'r plentyn – efallai nad yw rhieni wedi dangos llyfr i'r babi o'r blaen ac mae'n braf iddyn nhw weld sut maen nhw'n ymateb
- I rieni sydd â lefelau isel o lythrennedd neu ddiffyg hyder efallai, esboniwch sut y gallan nhw ddefnyddio'r llyfr i edrych ar y lluniau a siarad gyda'u plant am yr hyn y gallan nhw ei weld
- Dangoswch sut i ddefnyddio'r pypedau bys
- Gadewch i deuluoedd wybod lle mae eu llyfrgell agosaf a phryd mae sesiynau Amser Rhigwm neu Amser Stori yn cael eu cynnal – mae'r rhain yn achlysuron cymdeithasol delfrydol i rieni/gofalwyr a'u plant. Bydd hefyd gan lyfrgelloedd lyfrau am rianta gyda chyngor am fwydo a chysgu a gwybodaeth am grwpiau cymorth lleol



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Babi

**Defnyddio'r llyfrau babanod fel rhan o'r archwiliad datblygiadol 6 mis**


- Defnyddiwch y llyfr i ddal sylw'r plentyn yn uniongyrchol ac anogwch y rhiant / gofalwr i wylio sut maen nhw'n ymateb yn gymdeithasol neu gan ddefnyddio iaith
- Gwyliwch fynegiant eu hwyneb i weld sut maen nhw'n ymateb – ydyn nhw'n gwenu / dangos pleser / chwerthin?
- Arsylwch sut maen nhw'n defnyddio eu sgiliau trin a thrafod i drin y llyfr, a chadwch lygad ar eu sgiliau echddygol manwl. Gall llyfrau bwrdd fod yn wych i'w cyffwrdd gan annog babanod i ymwneud â nhw a datblygu eu sgiliau echddygol
- Gall profiadau cadarnhaol sy'n cael eu rhannu wrth i fam a phlentyn edrych ar lyfr gyda'i gilydd hybu iechyd meddwl y naill a'r llall
- Rhannwch eich arsylwadau gyda'r rhiant / gofalwr – tynnwch sylw at sut mae eu plentyn yn gwenu, yn ymgysylltu â'r llyfr ac ati



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Babi

## Llyfr dwyieithog




Dydy hi byth yn rhy gynnar i ddechrau rhannu llyfrau, straeon a rhigymau â'ch plentyn.

Mae'r llyfrau'n lliwgar ac mae ganddyn nhw ddelweddau bachog ac iaith syml y mae babanod yn eu caru.

Os nad ydy'r rhieni'n siarad Cymraeg, yna anogwch nhw i roi cynnig arni – mae yna recordiadau sain o'r llyfrau dwyieithog ar www.bookstart.org.uk/cymru


BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Babi

## Taflen Rhannu Straeon Gyda'ch Gilydd

Mae'r llyfryn hwn yn ddwyieithog ac mae'n cynnwys awgrymiadau a chyngor ar rannu straeon, llyfrau a rhigymau, canllawiau ar ddewis llyfrau a gwybodaeth am lyfrgelloedd.


Mae'r daflen yn rhoi mwy o gyngor a gwybodaeth i rieni/gofalwyr am rannu llyfrau, straeon a rhigymau â babanod, a dolenni i leoedd y gallan nhw ddod o hyd i ragor o wybodaeth




## Pypedau bys

Gall y pypedau dwy ochr hyn gael eu defnyddio i helpu i gael hwyl a rhyngweithio wrth rannu straeon.

Pan fydd rhannu straeon yn hwyliog, bydd plant eisiau ei wneud yn amlach.







BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Babi

## Taflen Llyfrgelloedd




Mae'n rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am beth mae llyfrgelloedd yn ei gynnig i deuluoedd, gan gynnwys gwybodaeth am amser rhigwm ac amser stori.

Mae llyfrgelloedd yn lleoedd gwych i rieni newydd gael gwybodaeth a chefnogaeth a gwneud ffrindiau newydd mewn digwyddiadau amser rhigwm ac amser stori.

BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Babi

**Cyngor ar gyfer rhoi pecyn Dechrau Da Babi yn rhodd:**


**Trafodwch** y llyfrau â'r rhiant. Gofynnwch iddyn nhw a ydyn nhw'n darllen neu'n canu rhigymau a chaneuon i'w babi.

Os ydyn nhw, trafodwch beth maen nhw'n ei wneud a beth sy'n gweithio iddyn nhw. Efallai y byddwch chi eisiau eu hannog nhw i ddarllen yn rheolaidd, datblygu trefn ddarllen/rigymu neu, os nad ydyn nhw'n gwneud hyn, popeth yn iawn! Nawr ydy'r amser i ddechrau.

**Esboniwch** sut mae darllen yn uchel a rhannu llyfr yn gallu cyfrannu at feithrin perthynas agos, ac at ddatblygiad cymdeithasol-emosiynol, lleferydd ac iaith.

**Byddwch yn fodel** o sut y gellir rhannu llyfr â'r babi fel bod rhieni/gofalwyr yn gallu gweld a chlywed hyn. Mae defnyddio'r pecyn i fachu sylw'r babi yn ystod eich ymweliad yn un o'r pethau mwyaf defnyddiol y gallwch chi ei wneud!

**Awgrymwch** sut i sefydlu trefn ddarllen – mae neilltuo rhyw 10 munud bach y dydd ar ôl bath, cyn gwely neu tra bod y bwyd yn y popty, neu ddod o hyd i amser tawel i gwtsio a rhannu llyfr o fudd i'r babi a'r rhieni. Helpwch nhw i nodi beth allai weithio iddyn nhw.



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Babi

**Tipiau Rhoi**


**Os nad oes llawer o amser gennych chi, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n:**

Cyfleu neges gynnes ac anogol ynglŷn â llawenydd a manteision rhannu llyfrau

Dangos cynnwys y pecyn

Annog teuluoedd i ddefnyddio'u llyfrgell

Rhoi gwybod iddyn nhw am unrhyw ddigwyddiadau lleol, fel amseroedd rhigwm, neu gyfleoedd perthnasol i ddysgu fel teulu



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Siarad Gyda Fi

**Siarad Gyda Fi -** tips a chyngor i dy helpu i gael blentyn i siarad o'r ymgyrch Siarad gyda Fi

Mwy o wybodaeth yma
[gov.wales/talkwithme](gov.wales/talkwithme)








BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Siarad Gyda Fi

**Siarad Gyda Fi -** tips a chyngor i dy helpu i gael blentyn i siarad o'r ymgyrch Siarad gyda Fi

Mwy o wybodaeth yma
gov.wales/talkwithme



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Siarad Gyda Fi

**Siarad Gyda Fi -** tips a chyngor i dy helpu i gael blentyn i siarad o'r ymgyrch Siarad gyda Fi

Mwy o wybodaeth yma
gov.wales/talkwithme






BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Siarad Gyda Fi

**Siarad Gyda Fi -** tips a chyngor i dy helpu i gael blentyn i siarad o'r ymgyrch Siarad gyda Fi

Mwy o wybodaeth yma [gov.wales/talkwithme](gov.wales/talkwithme)







BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Siarad Gyda Fi

**Siarad Gyda Fi -** tips a chyngor i dy helpu i gael blentyn i siarad o'r ymgyrch Siarad gyda Fi

Mwy o wybodaeth yma
gov.wales/talkwithme



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Siarad Gyda Fi

**Siarad Gyda Fi -** tips a chyngor i dy helpu i gael blentyn i siarad o'r ymgyrch Siarad gyda Fi

Mwy o wybodaeth yma
gov.wales/talkwithme




BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar - Rhoi

**Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar**
Mae pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar yn rhodd i'r plentyn, felly gallwch chi ei roi iddyn nhw'n uniongyrchol a'u helpu i'w agor a mynd trwyddo.







BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar

**Yr argymhelliad ydy rhoi pecynnau Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar yn ystod yr archwiliad 27 mis**

- Dylai'r teuluoedd fod wedi derbyn pecyn Dechrau Da Babi pan oedd eu plentyn yn 6 mis oed a dylen nhw fod wedi cael eu hannog i sefydlu trefn ddarllen syml. Mae pecyn y Blynyddoedd Cynnar yn gallu cefnogi teuluoedd i adeiladu ar y drefn hon neu mae'n rhywbeth arall i'w hannog i ddechrau darllen gyda'i gilydd yn rheolaidd
- Yn yr oedran hwn gallwch roi'r pecyn i'r plentyn i'w agor a'i archwilio
- Os nad yw rhieni wedi sefydlu trefn ddarllen yn barod neu os nad oes ganddyn nhw lyfrau gartref, cyfeiriwch nhw at eu llyfrgell leol lle gallan nhw fenthyg llawer o lyfrau am ddim i'w mwynhau gyda'i gilydd
- Anogwch y rhieni/gofalwyr i ofyn cwestiynau i'r plentyn wrth rannu llyfr – Beth maen nhw'n gallu ei weld ar y dudalen? Pa liwiau? Faint? Beth yw enwau'r anifeiliaid/cymeriadau? Beth maen nhw'n ei feddwl fydd yn digwydd nesaf?



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar

**Defnyddio'r llyfrau babanod fel rhan o'r archwiliad datblygiadol 27 mis**

- Gall llyfrau gael eu defnyddio i asesu sgiliau trin a thrafod, megis troi tudalennau'r llyfr
- Gofynnwch gwestiynau i'r plentyn am beth sy'n digwydd yn y llyfr i ddangos eu dealltwriaeth, a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas – A allan nhw adnabod lliwiau a gwrthrychau? Ydyn nhw wedi eu gweld yn y byd go iawn?
- Ydy'r plentyn yn gwenu/chwerthin ac yn dangos ymatebion emosiynol?
- A all y plentyn ddweud wrthych chi beth am ddigwydd nesaf? Ydyn nhw'n gwybod rhai o'r geiriau yn y llyfrau neu'r enwau ar gyfer gwrthrychau?

**Negeseuon ychwanegol i'w rhannu â rhieni / gofalwyr**

- Defnyddiwch y llyfrau i helpu i ddatblygu sgiliau iaith a chyfathrebu eich plentyn. Gofynnwch i'ch plentyn ymuno â'r geiriau a'r symudiadau mewn llyfr. Gofynnwch gwestiynau am yr hyn y gallwch ei weld yn y lluniau
- Anogwch eich plentyn i ddewis beth maen nhw am ei ddarllen nesaf. Bydd hyn yn eu helpu i fwynhau mwy
- Peidiwch â phoeni os yw'ch plentyn eisiau darllen yr un llyfr dro ar ôl tro! Bydd hyn yn eu helpu i ddysgu'r iaith yn y stori ac gall fod yn gysur



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar


**Defnyddio llyfrau a rhigymau i gefnogi datblygiad yn 27 mis oed**

- Gall llyfrau a rhigymau gefnogi arferion cysgu. Rhowch gynnig ar ddefnyddio rhigwm fel 'Twinkle Twinkle' i ddangos ei bod yn amser hoe neu'n amser gwely – gall hyn fod yn awgrym i helpu'ch plentyn i ymdopi â phontio o fod yn effro i orffwys a chysgu. Gall cofleidio gyda llyfr dawelu eich plentyn a'i helpu i gysgu
- Defnyddiwch lyfrau a rhigymau fel gwobr neu i atgyfnerthu e.e. wrth hyfforddi i ddefnyddio'r poti, dewch o hyd i bennill neu lyfr addas sy'n sôn am hynny ddefnyddio'r poti neu'r toiled
- Gall llyfrau a rhigymau helpu i fynd â sylw eich plentyn pan fydd yn diddyfnu
- Defnyddiwch rigymau a chaneuon i gynnwys eich plentyn yn nhrefn arferol y cartref (e.e. tacluso, mynd i siopa, mynd i mewn i'r car neu unrhyw gyfnod o newid/pontio)
- Gall hoff lyfrau a rhigymau helpu i fynd â sylw eich plentyn neu'i ddiddanu pan fydd yn aros neu'n bryderus e.e. yn y feddygfa, ar fws neu ar daith hir
- Bydd y rhan fwyaf o leoliadau gofal meithrin / gofal dydd yn rhannu llawer o lyfrau a rhigymau. Os yw'ch plentyn eisoes yn gyfarwydd â'r pethau hyn ac yn eu mwynhau, gallan nhw ei helpu i bontio o'r cartref i'r feithrinfa ac i'r ysgol



# Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar


## Llyfr dwyieithog




Mae'r llyfr i fod yn briodol i oedran plantos bach. Mae'r llyfr yn lliwgar ac yn fachog a gall gael ei fwynhau drosodd a thro.

Mae treulio cwta 10 munud yn cyd-ddarllen bob dydd yn helpu eich plentyn i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, ac mae'n gallu eu helpu nhw i dyfu i ddod yn ddysgwyr hyderus, hapus.


Os nad ydy teuluoedd yn siarad Cymraeg, gallan nhw wrando ar y llyfr yn y Gymraeg ar www.bookstart.org.uk/cymru



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar

## Taflen Rhannu Straeon Gyda'ch Gilydd




Mae’r daflen yn cynnwys awgrymiadau ynglŷn â sut i ddarllen gyda phlentyn bach a lle i ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

Mae'r daflen hon hefyd yn cynnwys awgrymiadau ar sut i ddewis llyfrau gyda'ch plentyn bach a rhestr o awgrymiadau o lyfrau i fynd i’r llyfrgell, er mwyn annog teuluoedd i ddewis llyfrau newydd gyda'u plentyn.



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar

## Taflen llyfrgelloedd




Mae'r daflen hon yn annog rhieni i fynd draw i'w llyfrgell a rhannu llyfrau â'u plentyn.

Gall teuluoedd gael benthyg llyfrau yn rhad ac am ddim, mynychu digwyddiadau sy'n addas i blant a dod o hyd i lyfrau sy'n rhoi help a chyngor ar ddelio â stranciau, y drefn gysgu, bwyta'n ffyslyd ac ati.

BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar


**Cyngor ar gyfer rhoi pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar yn rhodd:**

**Trafodwch** drefn ddarllen y teulu – gofynnwch i'r rhiant pryd maen nhw'n darllen, beth ydy hoff lyfr y plentyn? Os nad oes gan deuluoedd unrhyw lyfrau yn y cartref, fe allech chi ofyn sut wnaeth y plentyn fwynhau llyfrau Dechrau Da Babi, a'u cyfeirio at eu llyfrgell leol fel lle gwych i ddewis llyfrau i'w mwynhau gyda'i gilydd.

**Esboniwch** fod straeon, llyfrau a rhigymau'n gallu helpu datblygiad plentyn – mae eu cynnwys yn y drefn bob dydd yn gallu helpu eu plentyn i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i fwynhau'r ysgol.

**Byddwch yn fodel** o sut i ddewis llyfr a dangoswch sut y gallen nhw ddarllen gyda'i gilydd – gofynnwch i'r rhiant eistedd gyda'r plentyn, gan drafod y lluniau, a'r lliwiau. Gwnewch synau anifeiliaid neu leisiau doniol i ddod â'r stori yn fyw ac i wneud i'r plentyn chwerthin.

**Awgrymwch** fod y rhieni'n annog y plentyn i ddweud y stori – beth sy'n digwydd yn y lluniau? Beth maen nhw'n meddwl fydd yn digwydd nesaf?



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar

**Tipiau Rhoi**

**Os nad oes llawer o amser gennych chi, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n:**

Rhoi'r pecyn i'r plentyn

Dangos i'r plentyn sut i ddarllen – siaradwch am beth sy'n digwydd yn y llyfr, y lliwiau, y cymeriadau, dyfalu beth sy'n digwydd nesaf, defnyddio lleisiau a synau doniol

Annog rhieni i gael trefn ddarllen reolaidd – 10 munud y dydd os yn bosibl

Annog rhieni i ddefnyddio'u llyfrgell



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Gwasanaethau Lyfrgell

**[Fideo Llyfrgell]**

Gall Ymwelwyr Iechyd ddwyn sylw teuluoedd i'w llyfrgell leol a nodi mor bwysig ydy hi eu bod nhw'n cael benthyg llyfrau pan mae eu babanod yn fach, er mwyn cefnogi rhieni newydd a allai fod yn ei chael hi'n anodd sefydlu trefn bob dydd neu sydd angen cefnogaeth gyfeillgar gan rieni eraill.

Gallwch chi ddod o hyd i'ch llyfrgell leol fan yma:
https://llyfrgelloedd.cymru



BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart

# Camau nesaf y daith ddarllen

Caiff lleoliadau meithrin, darparwyr gofal plant a theuluoedd eu gwahodd i gymryd rhan yn **Amser Rhigwm Mawr Cymru** sy'n digwydd bob mis Chwefror.

O'u 3 oed, gall plant mewn lleoliadau meithrin fanteisio ar ein rhaglen **Pori Drwy Stori Meithrin** a gall pob plentyn oed derbyn yng Nghymru gymryd rhan yn **Pori Drwy Stori Derbyn** yn eu hysgol gynradd.

Mae rhaglen **Clwb Blwch Llythyrau** BookTrust yn cefnogi plant bregus.

I gael gwybod mwy am ein gwaith ewch i www.booktrust.org.uk/cymru a dilynwch ni ar Twitter **@booktrustcymru**

E-bost booktrustcymru@booktrust.org.uk

**Darluniau: Josefina Preumayr**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

BookTrust Cymru
Dechrau Da Bookstart